Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Priory Gogledd Cymru

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2017**

## Cyd-destun

Coleg arbenigol annibynnol yw Coleg Priory Gogledd Cymru, sydd wedi'i leoli drws nesaf i gampws y sefydliad addysg bellach yn Wrecsam sy'n gwasanaethu gogledd ddwyrain Cymru.

Sefydlwyd Coleg Priory Gogledd Cymru yn 2011 ac fe'i gweinyddir gan Wasanaethau Addysg Priory, sy'n rhan o Grŵp ehangach Priory.

Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd ar gyfer oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig. Mae 35 o ddysgwyr yn y coleg ar hyn o bryd. Daw'r rhan fwyaf o ddysgwyr i'r coleg o'r ardal leol.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn derbyn addysg yn gyfan gwbl yn y coleg ac yn dilyn cyrsiau lefel cyn-mynediad a lefel mynediad, gan gynnwys medrau byw yn annibynnol. Mae'r dysgwyr eraill yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Cambria. Maent yn astudio ystod eang o gyrsiau o lefel mynediad i TGAU. Mae'r holl ddysgwyr, ni waeth ble yw eu prif le astudio, yn derbyn cymorth yn y dosbarth a chymorth ychwanegol gan staff Coleg Priory.

Mae gan y coleg bennaeth addysg newydd a benodwyd ym Medi 2017.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae gan y pennaeth addysg newydd ffocws clir ar wella. Buan y mae hi wedi datblygu dealltwriaeth realistig o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y coleg.
- Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar fynychu dosbarthiadau prif ffrwd yn y sefydliad addysg bellach i ddilyn cyrsiau galwedigaethol sy'n briodol i'w gallu a'u diddordebau.
- Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda mewn perthynas â'u hanghenion.
- Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd yn dda â'u dysgu.
- Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac maent yn rhoi profiadau dysgu diddorol iddynt sy'n bodloni eu hanghenion unigol yn dda.
- Ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng dysgwyr a staff. Mae'r coleg yn darparu ethos cefnogol sy'n helpu dysgwyr i fagu hyder. Mae staff yn annog dysgwyr yn briodol i ddatblygu eu hannibyniaeth.

### Meysydd i'w datblygu

- Megis dechrau datblygu o hyd y mae prosesau ar gyfer coladu a dadansoddi data.

- Mae'r pennaeth addysg newydd wedi gwneud newidiadau buddiol i ddarpariaeth mewn cyfnod byr. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r rhain, ac nid ydynt wedi cael effaith fesuradwy eto.
- Er bod y coleg a'r sefydliad addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ar lefel dysgwr unigol, nid yw'r cyd-gynllunio strategol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
- Ni chaiff dysgwyr ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Nid yw'r coleg yn darparu digon o adnoddau cyfoes i gefnogi eu dysgu mewn TGCh.
- At ei gilydd, mae cynnydd y coleg yn erbyn argymhellion o'r arolygiad llawn wedi bod yn rhy amrywiol.

## Argymhellion

A1 Gwella'r prosesau ar gyfer coladu a dadansoddi data fel bod y coleg yn cael golwg clir o'r cynnydd cyffredinol a wna dysgwyr

A2 Adolygu'r cytundeb partneriaeth gyda'r coleg addysg bellach i sicrhau cyd-gynllunio strategol effeithiol

A3 Sicrhau bod gan y coleg ddigon o adnoddau TGCh ac arbenigedd i gefnogi dysgu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr bod casglu data yn cynnwys ffocws clir ar gynnydd dysgwyr ac arfarnu grwpiau o ddysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r coleg yn casglu ystod briodol o ddata sy'n ymwneud â chynnydd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys y deilliannau o asesiadau gwaelodlin a sgorau asesu diagnostig tymhorol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh, yn ogystal â data sy'n ymwneud â medrau byw yn annibynnol a dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi staff i olrhain cynnydd y dysgwyr mewnol. Fodd bynnag, mae'n anodd arfarnu cynnydd dysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr dros gyfnod ar draws eu gwahanol feysydd dysgu.

Mae'r coleg yn monitro cynnydd dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau yn y sefydliad addysg bellach trwy adborth gan staff cymorth a sgyrsiau anffurfiol â'r sefydliad addysg bellach. Fodd bynnag, er gwaethaf argymhellion blaenorol ar yr agwedd hon ar waith y coleg, mae systemau ar gyfer olrhain ac arfarnu cynnydd y dysgwyr hyn yn parhau i fod yn rhy anffurfiol.

**Argymhelliad 2: Gwella prydlondeb dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae rheolwyr wedi dechrau coladu a dadansoddi data ar bresenoldeb a phrydlondeb yn y bore, a rhoi strategaethau priodol ar waith i gynorthwyo dysgwyr unigol. Yn fwy diweddar, mae'r coleg wedi dechrau cofnodi prydlondeb ar ddechrau gwersi. Mae staff yn rhoi pum munud o rybudd i ddysgwyr pan fydd amser egwyl neu amser cinio ar fin dod i ben. Mae hyn yn helpu dysgwyr i'w paratoi eu hunain ar gyfer gwersi.

Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'n brydlon yn y bore ac ar ddechrau gwersi. Fodd bynnag, gan mai dim ond yn ddiweddar iawn y mae'r coleg wedi dadansoddi data, ni all rheolwyr arfarnu i ba raddau y mae prydlondeb wedi gwella ers yr arolygiad llawn.

**Argymhelliad 3: Cynllunio datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael dilyniant clir**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno system newydd i olrhain cyflawniad a chynnydd dysgwyr mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae athrawon yn defnyddio'r system i nodi cryfderau a gwendidau dysgwyr, cynllunio targedau unigol a dyrannu adnoddau priodol i fodloni eu hanghenion.

Mae'r coleg wedi diwygio amserlenni dysgwyr i sicrhau eu bod yn cynnwys sesiynau ar wahân ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh. Pan fydd angen, mae staff yn darparu sesiynau 'hybu medrau' unigol i gefnogi dysgu. Mae dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau prif ffrwd yn derbyn sesiynau medrau sy'n ymwneud yn benodol â maes galwedigaethol eu cwrs astudio.

Nid oes gan y coleg yr ystod a'r nifer o adnoddau TGCh addas i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau TGCh yn ddigonol.

**Argymhelliad 4: Gwneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr yn cael cymorth arbenigol priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion unigol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ceir cymhareb dda o staff i ddysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynd i weld staff yn unigol pan fydd angen cyngor, cymorth neu arweiniad ychwanegol arnynt.

Mae'r coleg wedi rhoi hyfforddiant diweddaru i staff ar ystod o feysydd arbenigol, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac ymddygiad heriol, er mwyn cefnogi anghenion unigol dysgwyr yn well.

Mae'r coleg wedi penodi cwnselwr hyfforddedig i gefnogi iechyd a lles emosiynol dysgwyr.

Mae ffocws addas ar gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o raglenni penodol i annog dysgwyr i nodi agweddau ar eu cyfathrebu eu hunain y maent yn dymuno'u datblygu.

**Argymhelliad 5: Gwella ansawdd hunanasesu a chynllunio gwelliant i wneud yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr ac yn cynnwys targedau clir y gellir eu mesur a'u harfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r pennaeth addysg a benodwyd yn ddiweddar wedi gweithio'n dda gydag uwch staff a'r rheolwr busnes i wella ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Erbyn hyn, mae cynllunio gwelliant yn cynnwys ffocws clir ar gynnydd dysgwyr.

Mae dogfen hunanarfarnu'r coleg yn cysylltu'n dda â'i gynllun gwella. Mae hwn yn cynnwys meini prawf llwyddiant priodol a graddfeydd amser realistig ar gyfer adolygu ymhellach a chwblhau. Mae cylch blynyddol o gyfarfodydd, terfynau amser a monitro ar gyfer adolygu cynnydd wedi'i amlinellu'n glir.

Mae cylch o weithgareddau llywodraethu yn darparu fframwaith defnyddiol o offer archwilio a monitro i Grŵp Priory i sicrhau ansawdd gwaith y coleg. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cynnydd y coleg yn erbyn argymhellion o'r arolygiad llawn wedi bod yn rhy amrywiol.

**Argymhelliad 6: Gwella cyfathrebu â'r sefydliad addysg bellach yn llawn i gefnogi anghenion dysgwyr a gwella'u perfformiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn gyffredinol, mae cyfathrebu â'r sefydliad addysg bellach ar lefel dysgwr unigol yn effeithiol. Mae cyfarfodydd i drafod dysgwyr unigol yn rhoi dealltwriaeth ar y cyd i staff o faterion pwysig mewn perthynas â lles dysgwyr, er enghraifft. Mae gan staff cymorth rôl allweddol mewn rhannu gwybodaeth rhwng y ddau leoliad.

Mae cyfathrebu ar lefel strategol yn llai datblygedig.  Mae'r pennaeth addysg newydd wedi cymryd camau pwysig i sefydlu perthynas weithio gref gydag uwch reolwyr yn y sefydliad addysg bellach.  Cynhaliwyd sawl cyfarfod ac mae gan reolwyr ddealltwriaeth ar y cyd o'r angen i ffurfioli trefniadau rhwng y ddau leoliad.  Mae hyn yn cynnwys adolygu'r cytundeb partneriaeth i sicrhau ei fod yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'n glir, a datblygu systemau gwell ar gyfer rhannu data.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Priory Gogledd Cymru |
| **Rhif y coleg** | F0006006 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 06/11/2017 |
| **Perchennog** | Grŵp Priory |
| **Staff** | 1 pennaeth addysg, 1 rheolwr busnes, 1 cynorthwyydd gweinyddu, 1 gweithiwr cadw tŷ, 2 yrrwr, 1 uwch athro, 2 athro, 3 uwch weithiwr cymorth, 17 gweithiwr cymorth dysgu a 2 staff banc |
| **Nifer y dysgwyr** | 35 |
| **Darpariaeth** | Dydd.  Yn ystod y tymor yn unig |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig (gan gynnwys cyflyrau cysylltiedig) |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 06/06/2016 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 08/06/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | dd/b |